

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 13 o EBRILL 2015 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00.

Presennol: Aled Williams (yn y gadair), Ian Evans, Tyssul Evans, Linda Williams, Alan Lewis, Wendy Evans, Geoff Hewitt, Heddwyn Jones, Geraint Rosser, Richard Thomas a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees, Ellis Jenkins a Meic Bowen.

Materion Personol

1124 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Diolchodd i bawb a ddaeth i Ginio'r Cadeirydd ar 10/04/15 ac yn enwedig i Mr Jonathan Edwards, A.S. a'i Briod.

1125 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 02/03/2015 fel rhai cywir.

1126 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1100 - Safle Gorsaf Pontiets. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc o'r Cyfarfod gyda Caroline Owen o Gyngor Sir Gar. Nodwyd bod cais wedi ei gwneud a grant o'r Loteri Fawr a hefyd o Gronfa Eglwysi Cymru.

Tud. 2 Cofnod Rhif 1100 - Mynydd Crwbin. Nodwyd y byddai Cyfarfod Safle yn cymryd lle ar 20/04/15.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1127 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn, Parc Llangyndeyrn -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

1128 Cruse Sir Gar - Llythyr yn diolch am rodd.

1129 1st. Pontyates Brownies – Llythyr yn diolch am rodd.

1130 Sefydliad Aren Cymru – Llythyr yn diolch am rodd.

1131 Bobath Cymru – Llythyr yn diolch am rodd.

1132 Cylch Ti a Fi Gwynfryn - Llythyr yn trosglwyddo ad-daliad o'r grant am £400 gan nad oedd Cylch Ti a Fi yn bodoli ar hyn o bryd. Diolchwyd iddynt am ddychwelyd y grant.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1133 Un Llais Cymru – Aelodaeth 2015-16- Llythyr yn cydnabod ein tal o £412.00.

1134 Cyngor Sir Gar - Ymgynghoriad am newid i wasanaethau Llyfrgell yn Llandeilo - Nodwyd y Llythyr.

1135 Cyngor Sir Gar- Cais am Ail gylchu gwydr ym Maes Parcio Pontiets- Gwrthodwyd y cais ar sail problemau fandaliaeth.

1136 CFFI – Rali'r Sir ar 02/05/15. – Pasiwyd 2 docyn i'r Cadeirydd.

1137 Carmarthenshire Local Access Forum New Team – Nodwyd y Llythyr.

1138 Llywodraeth Cymru - Pwysigrwydd Treftadaeth Leol - Nodwyd y Llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

1139 Cadarnhau Ceisiadau Cynllunio

- Elen Clarke – Rhydlydan, Crwbin - Newidiad - Caniatâd.
- Mr & Mrs Jules Hartley – Penybanc, Cwmisfael - Newidiad - Caniatâd.

Ceisiadau Cynllunio:

- Mr & Mrs E Jones – Fferm Cwm Eynon, Pedair Heol – Adeilad Amaethyddol - Dim Gwrthwynebiad.
- Mr Colin Davies - Penybanc, Heol Mansant, Pontiets - Tŷ a Garej - Dim Gwrthwynebiad.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1140 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Mawrth..

Adroddiad Ariannol Misol

1141 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

- a) Cyflog y Clerc - £350.44 (Mis Mawrth)
- b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mawrth)
- c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr – £89.19 (Mis Mawrth)
- ch) HMRC (Treth)- £75.74 (Mis Mawrth)
- d) Lamineiddio - £12.42
- dd) Cyngor Sir Gar – Costau Toiledau'r Meinciau - £665.13

1142 Cwar Blaenyfan

Cafwyd adroddiad gan y Clerc a'r Cyngorwr Alan Lewis o'r hyn a drafodwyd gan y Pwyllgor Cynllunio ar 13/04/15.

Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd danfon yr adroddiad at Mr Hugh Towns, Cyngor Sir Gar.

1143 Archwiliad Ariannol Blynnyddol

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ei bod wedi derbyn y ffurflenni priodol gan y BDO ar gyfer archwiliad 2015. Mae Llyfrau Cyfrifon y Cyngor wedi mynd at ein Harchwilydd Mewnol, Mr Roger Thomas ar gyfer 2014/2015.

1144 Pwyllgor Cyllid

Cynhaliwyd Pwyllgor Cyllid ar 25/03/15 a derbyniwyd y Gyllideb am 2015/2016.

1145 Ymddiswyddiad Cynghorydd

Darllenwyd Llythyr gan y Clerc oddiwrth y Cynghorydd Emyr John yn datgan ei fwriad i ymddeol o achos materion personol. Derbyniwyd ei ymddiswyddiad gyda thristwch gan ddiolch iddo am nifer o flynyddoedd o wasanaeth arbennig a chydwybodol i'r Cyngor. Awdurdodwyd i'r Clerc i ddanfon ein cyfarchion a'n diolchiadau iddo.

Materion Cynghorwyr

1146 Alan

- Gofyn i Gyngor Sir Gar i lanhau safle Ail-gylchu'r Meinciau yn fwy aml.

1147 Richard

- Gofyn i Adran Safonau Masnachol Cyngor Sir Gar ynglŷn â 41 Maesglas,Pontiets.

Cyfarfod nesaf:- 11 o Fai 2015 yn Llyfrgell,Neuadd Pontiets (NODIR Y DYDDIAD), yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol.

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....